Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adolygiad cyflym Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i blismona anhrefn cyhoeddus**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr heddlu wrth eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr heddlu i'r arolygiad hwn gan y Bwrdd Plismona ar 23 Ionawr 2025. Dyma'r fforwm lle rwy'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Rwyf wedi nodi fy meddyliau a'r sicrwydd a gefais gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion ar gyfer heddluoedd yn yr adroddiad isod. Rwy'n aros am ganlyniadau'r argymhellion cenedlaethol ochr yn ochr â'r heddlu.

**Argymhelliad 1:**

**1.1 Dylai Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a phrif gwnstabliaid, gan weithio gyda'r Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref, ar unwaith greu cynllun a mynd ati i wella capasiti a gallu'r gwasanaeth heddlu i ymateb i anhrefn treisgar eang. Dylent, mewn ymgynghoriad â'r Swyddfa Gartref, adolygu'r elfennau o'r Gofyniad Plismona Strategol sy'n ymwneud â diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus ac ychwanegu galluoedd arbenigol perthnasol, gan ddechrau gydag ymchwilwyr ac adnoddau cudd-wybodaeth.**

Rwy'n aros yn eiddgar am y cynllun gweithredu gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu er mwyn gallu deall yn well a gwella capasiti a gallu'r heddlu i ymateb i anhrefn treisgar yn iawn. Yn ogystal, mae Canolfan Gwybodaeth a Chydlynu Ranbarthol Cymru yn ceisio sefydlu desg wybodaeth ranbarthol ar gyfer Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed-Powys. Oherwydd maint yr anrhefn yn ardal Heddlu De Cymru, maent eisoes wedi datblygu desg deallusrwydd pwrpasol i edrych ar y mater hwn. Bydd cydweithio gyda Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed-Powys maes o law.

**1.2 Cwblhau asesiad llawn o addasrwydd ac argaeledd cyfarpar diogelu personol ar gyfer yr holl swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i gynnal diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus, gan gynnwys unedau marchogol ac unedau cŵn.**

Rwyf wedi cael fy sicrhau bod yr heddlu wedi cynnal adolygiad o gyfarpar diogelu personol ac offer yn ddiweddar. Nodwyd bod angen cyfarpar diogelu

personol newydd ac ychwanegol ar gyfer swyddogion sydd wedi’u hyfforddi i gynnal diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus, gan gynnwys swyddogion cŵn.
Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o asedau ac offer trefn gyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd digwyddiadau fel Ymgyrch Cambrian (protestiadau Gwesty Parc y Strade) a’r defnydd o gydgymorth (Ymgyrch Brock, gwrthdaro Israel / Palesteina). Mae hyn wedi achosi traul sylweddol i wisgoedd ac offer swyddogion.
Rwyf wedi cael fy sicrhau bod yr heddlu yn ailgyflenwi oferôls a helmedau gwrth-fflam, ynghyd â thariannau ac eitemau allweddol eraill.

**1.3 Sicrhau bod pob heddlu neu ranbarth yn gallu defnyddio gwas y glas (dronau) yn gyflym yn ystod digwyddiadau diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi’n sylweddol mewn dronau, ac yn ddiweddar wedi prynu cerbyd dronau pwrpasol, a fydd yn galluogi defnyddio dronau o wahanol feintiau a gallu yn gyflym i bob digwyddiad o anhrefn yn ymwneud ag asedau trefn gyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys. Rwyf wedi cael fy sicrhau bod rheolwyr diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys wedi’u hyfforddi’n llawn i ddefnyddio dronau mewn digwyddiadau diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus. Defnyddir dronau hefyd yn ystod ymweliadau brenhinol ac maent yn cynnwys defnyddio tîm dronau ar y cyd.

**1.4 Datblygu a darparu arweiniad ar ddefnyddio dronau o fewn ymarfer proffesiynol awdurdodedig y Coleg Plismona i gynnal diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus.**

Rwy’n aros am y canllawiau cenedlaethol ochr yn ochr â’r heddlu, sy’n cael eu datblygu gan y Coleg Plismona.

**1.5 Adolygu’r ystod o opsiynau tactegol, offer a thechnoleg sydd ar gael i wneud yn siŵr bod swyddogion yn gallu gwasgaru pobl sy’n cymryd rhan mewn anhrefn yn gyflym ac yn ddiogel.**

Bydd y canllawiau cenedlaethol a ddatblygwyd gan y Coleg Plismona yn rhoi arweiniad pellach ar hyn. Rwyf wedi cael fy sicrhau bod yr holl swyddogion a ddefnyddir fel rhan o unrhyw ddefnydd uned wrth gefn yr heddlu wedi’u hyfforddi’n llawn a’u bod wedi cael yr hyfforddiant ddiweddaraf neu â’r cymwysterau ac ardystiadau gofynnol.
Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer meddygon a sgiliau arbenigol ychwanegol o ran diogelwch cyhoeddus ar

gyfer trefn gyhoeddus. Dylai'r hyfforddiant hwn gael ei gynnal ddiwedd mis Chwefror 2025.

**1.6 Adolygu hyfforddiant diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus ar bob lefel, gan gynnwys asesiad o ddigonolrwydd y prawf ffitrwydd cyfredol ar gyfer swyddogion lefel 2.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn aros am arweiniad pellach a chyfeiriad strategol mewn ymateb i'r adolygiad o ba mor ddigonol yw'r prawf ffitrwydd cenedlaethol. Mae holl staff uned wrth gefn yr heddlu wedi pasio'r prawf ffitrwydd cenedlaethol cyfredol.

**Argymhelliad 3:**

**3.1 Dylai Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a phrif gwnstabliaid, gan weithio gyda'r Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref, ar unwaith greu cynllun a dechrau gweithio i wella'r cymorth llesiant y mae gwasanaeth yr heddlu yn ei roi i'w swyddogion a'i staff. Dylent greu protocolau ffurfiol gyda gwasanaethau ambiwlans ac ymddiriedolaethau ysbytai ar gyfer trin swyddogion heddlu sy'n cael eu hanafu ar ddyletswydd.**

I ddechrau, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chanolfan Gydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu a fydd yn gyfrifol am yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi cael fy sicrhau unwaith y bydd cyfeiriad strategol wedi'i gytuno, bydd Canolfan Gwybodaeth a Chydlynu Ranbarthol Cymru yn llunio cynllun ar gyfer Heddlu Gwent, Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn sicrhau cysondeb a'i wreiddio. Bydd angen datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda phartneriaid gofal iechyd. Mae'r gwaith hwn yn aros am arweiniad pellach ar hyn o bryd.

**3.2 Asesu sut mae cynllunio a threfnu diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus ar lefel heddlu, ac yn rhanbarthol a chenedlaethol, yn ystyried ac yn blaenoriaethu llesiant swyddogion a staff, megis sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd a diod, gorffwys a chylchdroi, cyfarpar diogelu personol a chyfleusterau toiled.**

Rwyf wedi cael gwybod bod Heddlu Dyfed-Powys, wrth ddefnyddio adnoddau diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus, yn sicrhau y darperir ar gyfer darpariaethau lles swyddogion. Penodir swyddog lles penodedig i ymgysylltu'n rheolaidd â'r swyddogion a'r comanderiaid a mynd i'r afael â'r holl anghenion.

**3.3 Ystyried a ddylid diffinio rolau diogelwch cyhoeddus ar gyfer trefn gyhoeddus fel 'risg uchel', yn enwedig mewn heddluoedd sy'n wynebu anhrefn yn aml, yn helaeth ac yn ddifrifol.**

Mewn trafodaeth â'r heddlu, rwyf wedi cael gwybod y byddai Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi dynodi rolau uned wrth gefn yr heddlu fel rhai 'risg uchel'. Mae swyddogion yn rhoi eu hunain mewn perygl sylweddol pan gânt eu defnyddio mewn sefyllfaoedd trefn gyhoeddus, yn enwedig wrth gynnig cymorth ar y cyd.

**3.4 Adolygu a oes angen cymorth ychwanegol ar swyddogion a ddefnyddir mewn digwyddiadau gelyniaethus fesul achos.**

Dywedodd yr heddlu wrthyf fod y gweithlu'n newid o ran y cymorth y mae'r swyddogion ei angen i gyflawni eu rolau. Nodwyd bod gwytnwch a goddefgarwch swyddogion iau wedi newid yn sylweddol.

**3.5 Archwilio lefel y cyfraniad y mae pob heddlu, a'r Swyddfa Gartref, yn ei wneud i ganolfannau triniaeth a llesiant yr heddlu, fel bod yr holl swyddogion a staff sydd angen triniaeth yn gallu cael mynediad ati.**

Bydd Canolfan Gwybodaeth a Chydlynu Ranbarthol Cymru yn mynd i'r afael â'r cam hwn, a rhoddir canllawiau i bob heddlu unwaith y bydd cyfarwyddeb genedlaethol wedi'i phennu.

I gloi, mae Heddlu Dyfed-Powys yn aros am arweiniad pellach a chyfeiriad strategol mewn ymateb i argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi uchod. Yn nodedig, rwyf wedi fy sicrhau bod yr heddlu wedi cyflawni ei rwymedigaethau wrth gefn strategol yn llwyddiannus o dan y fframwaith Gofyniad Plismona Strategol ac wedi defnyddio adnoddau trefn gyhoeddus i wahanol rannau o'r DU o dan Ymgyrch Navette.

Rwy'n ddiolchgar eich bod wedi cyhoeddi'r argymhellion hyn. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i wella'r gwasanaeth plismona ar gyfer trigolion ardal Dyfed-Powys.